

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANEGRYN

20/02/27

Ni dderbynnir unrhyw waith ar gyfer ei feirniadu yn y cystadlaethau canlynol ar ôl Chwefror 1af, 2027. Dychwelir y gwaith llenyddol ar ôl yr Eisteddfod, os anfonir amlenni wedi eu cyfeirio a'u stampio i'r Ysgrifennydd gyda'r gwaith.

LLENYDDIAETH

40. Dan 25 oed: Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf hyd at 2000 o eiriau. Gwobr: £30
Bydd y beiriniad yn argymhell hyd at 3 darn o waith haeddiannol i fynd ymlaen i gystadleuaeth 'TLWS YR IFANC' yn Eisteddfod Genedlaethol 2027 am wobr o £200.
Dyfernir gwaith o'r eisteddfodau lleol rhwng Ebrill 2026 a Ebrill 2027.
41. Agored: Cyfieithu Erthygl ffotograffiaeth "Four seasons in Britain's National Parks – Eryri". (Copiau ar gael gan yr Ysgrifennydd).
Gwobr: £30.
42. Agored: Parodi ar "Yma o hyd". (Copiau ar gael gan yr Ysgrifennydd).
Gwobr: £30.

Cystadlaethau Lleol –

Cyfyngedig i Dalgylch 'Dail Dysynni'

43. Erthygl ar gyfer Papur Bro – Gwobr: Tlws Dail Dysynni er cof am Sulwyn (I'w chadw am flwyddyn) a £20.
44. Cystadleuaeth i'r dysgwyr – Darn o ryddiaeth ar y testyn "Chwaraeon".
Gwobr: £20.

Y cynnyrch yn yr adrannau Llenyddiaeth a Chelf i fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn Chwefror 1af, 2027. Ffugenw ar y Gwaith gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ynglwm.

Teleri Roberts, Cilfan y Coed, 54 Faenol Isaf, Tywyn,
LL36 0DW
(Ffôn: 01654 288 304)
teleri.roberts@outlook.com